**CYNGOR BWRDEISTREF SIROL RHONDDA CYNON TAF**
**MEINI PRAWF AR GYFER CEISIADAU AM FWRSARI'R CELFYDDYDAU**

Mae grantiau o hyd at £500 ar gael.
Mae ceisiadau gan unigolion neu grwpiau yn cael eu croesawu.

| MEINI PRAWF | DEFNYDDIO'R GRANT |
|---|---|
| Rhaid bod yr ymgeisydd yn:<br>• Byw yn Rhondda Cynon Taf am o leiaf 4 blynedd adeg cyflwyno'r cais a bydd yn parhau i fyw yn Rhondda Cynon Taf yn ystod blwyddyn y bwrsari (mae cyfnodau teithio ar gyfer gwaith ymchwil neu hyfforddiant wedi'u heithrio a fyddan nhw ddim yn effeithio ar ddiffiniad y Cyngor o le mae unigolyn yn byw)<br>• Dangos talent neu botensial eithriadol i fod yn artist/artistiaid y dyfodol<br>• Bod yn 11-25 oed adeg y cais | Mae modd ddefnyddio'r grant ar gyfer:<br>• Hyfforddiant arbenigol perthnasol<br>• Costau teithio a llety ar gyfer achlysuron a chyrsiau a fydd o fudd i yrfa/gyrfaoedd yr ymgeisydd/ymgeiswyr<br>• Ffioedd mynediad ar gyfer clyweliadau<br>• Helpu â secondiad neu interniaeth ddi-dâl neu incwm isel (h.y. treuliau yn unig) sy'n gysylltiedig â'r celfyddydau<br>• Prynu offer<br>• Prynu gwisgoedd |
| **CYFLWYNO CAIS** | **RHEOLAU** |
| • Llythyrau oddi wrth yr ysgol/coleg/prifysgol/sefydliad celfyddydol/tiwtor/mentor sy'n cefnogi'r cais<br>• Nodwch pam rydych chi'n gofyn am y grant a pham y dylech chi gael eich ystyried<br>• Crynodeb o brofiad a thystiolaeth o sgiliau/ talent<br>• Dadansoddiad o'r costau<br>• Prawf o'ch cyfeiriad ac am ba mor hir rydych chi wedi byw yn Rhondda Cynon Taf | • Un cais y flwyddyn<br>• Nid ar gyfer artistiaid proffesiynol<br>• Mae bwrsari sy'n cael ei ddyfarnu i unigolion yn daladwy yn uniongyrchol iddo ef/iddi hi/iddyn nhw neu i'w gwarcheidwaid<br>• Bydd bwrsari sy'n cael ei ddyfarnu i grwpiau yn daladwy yn uniongyrchol i arweinydd enwebedig y grŵp neu i'w warcheidwad<br>• Os bydd angen, bydd y grant yn cael ei dalu ymlaen llaw<br>• Mae ffurflen fonitro fer i'w chwblhau ar ôl i'r grant gael ei ddefnyddio<br>• Mae'n bosibl y bydd methu â dychwelyd ffurflen fonitro foddhaol a dogfennau ategol yn arwain at ail-hawlio'r grant |